AVISON YOUNG

# Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol

**Dymchwel strwythurau cyfadeilad y pyllau uwch ben y ddaear; cadw'n barhaol y strwythurau sydd wedi'u halogi ag ymbelydredd o dan y ddaear a sgil-gynhyrchion gwaith dymchwel (gan gynnwys gwastraff dymchwel sydd wedi'i halogi'n ymbelydrol) mewn gwagleoedd o dan y ddaear; a gwaith capio a draenio cysylltiedig**

Gorsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd, Blaenau Ffestiniog, LL41 4DT

Cyfeirnod Avison Young: AY/17C1000085/SCI/02

Cyfeirnod NRS (Cleient): TRAWS-23-044 Rhifyn 02

Mehefin 2024

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .... 3
2. Cyd-destun Ymgynghori / Ymgysylltu .... 3
Cefndir y Cynigion .... 3
Safle'r Cais .... 3
Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig .... 3
Ymholiad Cyn Ymgeisio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (ENPA) .... 4
Barn Sgrinio a Chwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol .... 4
3. Crynodeb o'r Ymgysylltu / Ymgynghori .... 4
Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (SSG) .... 4
Grŵp Cyflwr Terfynol Trawsfynydd (TESG) .... 6
Gweithdy Rhanddeiliaid .... 7
Cyflwyniadau gan Gynghorau Cymuned .... 7
Llythyr Cais am Adborth gan Gynghorwyr .... 7
Digwyddiadau Ymgynghori / Ymgysylltu â'r Cyhoedd .... 7
Gweithdy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) .... 7
Cyhoeddusrwydd ac Ymgynghoriad ar y Cais Cyn Cynllunio Gorfodol .... 7
4. Crynodeb a Chasgliad .... 8

## Atodiadau

Atodiad I — Cynllun Lleoliad y Safle
Atodiad II — Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (SSG)
Atodiad III — Llythyr at Gynghorwyr Lleol (Dyddiedig 21 Rhagfyr 2022)
Atodiad IV — Ymgysylltu Cyhoeddus / Digwyddiadau Ymgynghori

**Teitl yr Adroddiad:** Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol
**Cyfeirnod Dogfen Avison Young:** AY/17C1000085/SCI/02
**Cyfeirnod Dogfen NRS (Cleient):** TRAWS-23-043 Rhifyn 02
**Paratowyd gan:** Avison Young (UK) Limited
**Statws:** Argraffiad 02
**Dyddiad drafft:** 18 June 2024

**Ar gyfer ac ar ran Avison Young (UK) Limited**

# 1. Cyflwyniad

1.1 Paratowyd y Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol hwn i gyd-fynd â chais cynllunio llawn ar gyfer:

i dymchwel cyfadeilad pyllau Trawsfynydd;

ii mewnlenwi gwagleoedd o dan y ddaear yng nghyfadeilad y pyllau, yn bennaf gyda sgil-gynhyrchion gwaith dymchwel sydd wedi'u halogi'n ymbelydrol, a chadw'r mewnlenwi'n barhaol (sef gwaredu gwastraff ymbelydrol mewn termau trwyddedu amgylcheddol);

iii cadw'n barhaol strwythurau gweddilliol o dan y ddaear cyfadeilad y pyllau, ac o'i gwmpas, sydd wedi'u halogi'n ymbelydrol (sydd, yn nhermau trwyddedu amgylcheddol, hefyd yn cynnwys gwaredu gwastraff ymbelydrol);

iv capio ôl troed cyfadeilad y pyllau blaenorol gyda chap concrit; a

v addasiadau i'r draeniau lleol ar y cap concrit ac o'i gwmpas.

1.2 Yr ymgeisydd yw Nuclear Restoration Services (NRS) Limited [1]. Ar 02 Mawrth 2024, cafodd Magnox Limited ei ailfrandio yn NRS. O hyn ymlaen, cyfeirir at y cwmni fel 'yr Ymgeisydd'.

1.3 Er nad yw'n orfodol cyflwyno Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol i gefnogi ceisiadau cynllunio, mae'r Ymgeisydd wedi mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â'r gymuned leol ynghylch y cynigion hyn ers nifer o flynyddoedd ac mae'n cydnabod pwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu cyn ymgeisio. Mae'r datganiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymgysylltu â'r cyhoedd.

1.4 Mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu'r broses ymgynghori / ymgysylltu cyn ymgeisio ac ymatebion yr Ymgeisydd i'r sylwadau a gafwyd. Mae'r datganiad felly wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn rhoi esboniad o gefndir y safle, ei leoliad, disgrifiad o'r cynigion a chyd-destun yr ymgysylltu / ymgynghori;
- Mae Adran 3 yn amlinellu'r ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned; ac
- Mae Adran 4 yn darparu crynodeb a chasgliadau.

# 2. Cyd-destun Ymgynghori / Ymgysylltu

## Cefndir y Cynigion

1.5 Dechreuodd Trawsfynydd gynhyrchu trydan yn 1965 a rhoddodd y gorau i gynhyrchu yn 1991, a chafodd ei gau'n barhaol yn 1993. Mae gwaith datgomisiynu a rheoli gwastraff yn digwydd ar y safle ar hyn o bryd. Mae datgomisiynu'n golygu symud a rheoli offer, adeiladau a gwastraff oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu trydan a gweithrediadau dilynol mewn ffordd systematig.

## Safle'r Cais

1.6 Mae safle'r cais yn ymwneud yn bennaf â chyfadeilad y pyllau, sy'n cynnwys cyfadeilad o adeiladau cyffiniol yn bennaf (mae rhai ohonynt yn ymestyn o dan y ddaear) wrth ymyl dau adeilad yr adweithyddion. Fodd bynnag, oherwydd y gwarediadau arfaethedig sy'n cynnwys rhai nodweddion segur y tu allan i ôl troed cyfadeilad y pyllau, mae safle'r cais yn cwmpasu "Ardal Waredu" ychydig yn ehangach. Mae cynllun lleoliad y safle wedi'i gynnwys yn Atodiad I.

## Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig

1.7 Mae'r cynigion yn cynnwys dymchwel cyfadeilad y pyllau i lefel y slab sylfaen, mewnlenwi'r gwagleoedd o dan y ddaear, capio'r rhan fwyaf o'i ôl troed, ac addasu'r system ddraenio dŵr wyneb. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys gwaredu ar y safle rai o strwythurau cyfadeilad y pyllau sydd wedi eu halogi ag ymbelydredd lefel isel gweddilliol, gan gynnwys defnyddio sgil-gynhyrchion addas sydd wedi'u halogi'n ymbelydrol (concrid a gwaith maen) o waith dymchwel y strwythurau uwchben y ddaear i fewnlenwi gwagleoedd diangen (a elwir yn "waredu at ddiben"). Bydd rhai gwagleoedd yn cael eu llenwi'n rhannol â choncrid glân am resymau strwythurol, ac efallai y bydd eraill yn cael eu llenwi'n rhannol â choncrid glân am resymau lliniaru effaith dŵr daear. Bydd rhywfaint o seilwaith ychwanegol cyfagos o dan y ddaear, ond sy'n gymharol fach, sydd wedi'i halogi'n ymbelydrol, hefyd yn cael ei waredu yn y fan a'r lle, er nad oes angen unrhyw waith peirianyddol sylweddol ar gyfer y rhain.

## Ymholiad Cyn Ymgeisio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (ENPA)

1.8 Cyflwynwyd ymholiad cynllunio cyn ymgeisio (Cyfeirnod LPA NP5/73/287L) i ENPA ar 2 Medi 2022 (llythyr dyddiedig 31 Awst 2022), i roi manylion y cynigion ar gyfer dymchwel cyfadeilad y pyllau a gwaredu

[1] Mae Nuclear Restoration Services Limited, y Cwmni Trwydded Safle (SLC) ar gyfer Safle Trawsfynydd, yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) ac mae'n gyfrifol am reoli fflyd o safleoedd adweithyddion yn gyffredinol, a'r holl weithrediadau ynddynt, gan gynnwys Trawsfynydd.

strwythurau priodol/sgil-gynhyrchion dymchwel ar y safle. Er nad oes ymateb ysgrifenedig ffurfiol wedi dod i law, darparodd ENPA wybodaeth anffurfiol am y canlynol:

- cwmpas y dogfennau technegol sy'n ofynnol i gefnogi'r cais cynllunio;
- y polisïau cynllunio allweddol sy'n berthnasol i'r cynigion; a
- yr ystyriaethau perthnasol / amgylcheddol allweddol tebygol sy'n berthnasol i'r cynigion.

1.9 Cynhaliwyd cyfarfod cyn ymgeisio rhithiol hefyd ar 11 Tachwedd 2022, gyda Robin Wynne Williams (Uwch Swyddog Mwynau a Chynllunio Gwastraff).

1.10 Mae'r materion a godwyd mewn ymateb i'r ymholiad cyn ymgeisio wedi cael sylw yn y Datganiad Cynllunio, y Datganiad Amgylcheddol neu mewn dogfennau atodol a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio llawn.

### Barn Sgrinio a Chwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

1.11 Cyflwynodd yr Ymgeisydd gais ffurfiol am farn sgrinio i ENPA ar 26 Ionawr 2022. Ar 13 Mai 2022, cyhoeddodd ENPA benderfyniad sgrinio cadarnhaol yn cadarnhau y bydd effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd yn golygu y bydd angen cyflwyno Datganiad Amgylcheddol. Roedd y penderfyniad sgrinio yn seiliedig ar bod y datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad Atodlen 2 – y tu hwnt i'r trothwy / wedi bodloni'r maen prawf neu'n Ardal Sensitif ac yn debygol o gael effeithiau sylweddol.

1.12 Cafodd cais cwmpasu ei wneud gan yr Ymgeisydd ar 15 Medi 2022, a daeth barn gwmpasu derfynol i law ar 23 Mawrth 2023. Roedd y farn gwmpasu yn cynnwys sylwadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

## 3. Crynodeb o'r Ymgysylltu / Ymgynghori

### Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (SSG)

1.13 Mae Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (SSG) yn gorff cymunedol lleol annibynnol sy'n rhyngwyneb rhwng yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), y gymuned leol a gweithredwr y safle niwclear yn Nhrawsfynydd (yr Ymgeisydd). Mae'n gweithredu yn unol ag egwyddorion bod yn agored ac yn dryloyw, gyda'r nod o fod yn hygyrch i'w gymunedau. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar y safle ond mae'n ystyried materion a datblygiadau polisi ehangach.

1.14 Prif bwrpas y SSG yw bod yn brif ryngwyneb rhwng y gymuned leol a gweithredwyr safleoedd Trawsfynydd. Mae aelodaeth yr SSG yn adlewyrchu strwythur cynrychioladol y gymuned leol a'i buddiannau yn ogystal â statws gweithredol y safle ac anghenion yr NDA. Ar y sail hon, mae'r SSG yn cynnwys:

- Cynrychiolwyr o'r gymuned leol a grwpiau amgylcheddol lleol.
- Cynghorwyr annibynnol i gefnogi aelodau fel y bo'n briodol.
- Cynrychiolwyr wedi'u penodi (heb bleidlais) o sefydliadau perthnasol fel rheoleiddwyr, awdurdodau lleol, undebau, gwasanaethau brys ac iechyd.
- Cynrychiolwyr gweithredwyr y safle (heb bleidlais).
- Cynrychiolydd o'r NDA (heb bleidlais).
- Aelodau cyfetholedig ychwanegol yn ôl y gofyn (heb bleidlais).

1.15 Rôl a phwrpas penodol y SSG yw:

- Darparu sianel gyfathrebu weithredol rhwng gweithredwyr y safle, yr NDA a rhanddeiliaid lleol.
- Rhoi cyfle i holi'r gweithredwyr, yr NDA a rheoleiddwyr ar ran y gymuned.
- Rhoi cyfle i randdeiliaid roi sylwadau ar strategaethau a chynlluniau a dylanwadu arnynt.
- Cynrychioli safbwyntiau lleol a rhoi cyngor amserol i'r gweithredwyr, yr NDA a'r rheoleiddwyr.
- Rhoi sylwadau ar berfformiad y gweithredwyr a'r NDA.
- Comisiynu a derbyn adroddiadau am weithgareddau ar y safle a'u heffaith ar, er enghraifft, diogelwch, yr amgylchedd ac iechyd.
- Adolygu'r trefniadau ar gyfer materion fel ymateb i argyfwng.
- Cyflwyno barn a sylwadau i'r NDA ar ddyfodol y safle datgomisiynu.
- Sefydlu is-grwpiau i fynd i'r afael â materion penodol (gan gynnwys rheoli gwastraff).
- Sefydlu ymgynghoriad lleol ehangach drwy'r gweithredwyr yn ôl yr angen.

1.16 Mae'r gwaith o ddatgomisiynu a dymchwel cyfadeilad y pyllau yn Nhrawsfynydd a chael gwared ar fewnlenwad addas yn y gwagleoedd o dan y ddaear cyn capio ei ôl troed wedi cael ei drafod â Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd sawl gwaith dros y saith neu wyth mlynedd diwethaf wrth ddatblygu'r cynllun. Mae rhestr o gyfarfodydd y SSG, lle trafodwyd y cynigion, wedi'i nodi isod:

| Dyddiad y cyfarfod | Hyd a lled y drafodaeth am y cynigion |
| --- | --- |

| Dyddiad y cyfarfod | Hyd a lled y drafodaeth am y cynigion |
|---|---|
| 6 Mehefin 2016 | Cafwyd cyflwyniad gan Reolwr Prosiect Cyflwr Terfynol yr Ymgeisydd ynghylch canllawiau rheoleiddio drafft newydd ar optimeiddio cyflyrau terfynol y safle a rheoli gwastraff cysylltiedig. Awgrymwyd, lle bo hynny'n briodol ac wedi'i optimeiddio, y gallai rhywfaint o wastraff datgomisiynu lefel isel aros ar y safle yn hytrach na chael ei gludo i'w waredu oddi ar y safle. Hefyd, bod tri safle 'arwain a dysgu' wedi cael eu dewis i dreialu'r canllawiau rheoleiddio drafft – Trawsfynydd oedd (yw) un o'r safleoedd hynny. |
| 5 Rhagfyr 2016 | Yn dilyn y diweddariad cyflwr terfynol wedi'i optimeiddio ac adroddiad cyfarwyddwr y safle ar gau'r safle, codwyd cwestiwn ynghylch y posibilrwydd o waredu gwastraff ymbelydrol addas ar y safle yn Nhrawsfynydd ac a fyddai hyn yn agor y drws i safleoedd eraill fewnforio gwastraff i'r safle. Cadarnhawyd nad oedd hyn yn cael ei gynnig. |
| 4 Rhagfyr 2017 | Darparwyd diweddariad cynnydd gan Reolwr Prosiect Cyflwr Terfynol yr Ymgeisydd mewn perthynas ag optimeiddio cyflyrau terfynol y safle, ac eglurwyd bod dichonoldeb dymchwel cyfadeilad y pyllau yn rhannol a gwaredu gwastraff ymbelydrol addas ar y safle yn cael ei ystyried. |
| 6 Mehefin 2019 | Cafwyd cyflwyniad gan Reolwr Prosiect Cyflwr Terfynol yr Ymgeisydd ynghylch optimeiddio cyflyrau terfynol y safle. Tynnwyd sylw'r aelodau at newid yn y strategaeth a oedd yn cynnwys dymchwel holl rannau cyfadeilad y pyllau sydd uwch ben y ddaear, a gadael rhai nodweddion o dan y ddaear yn y fan a'r lle. Gofynnwyd am broses ymgynghori gyhoeddus gadarn. |
| 3 Rhagfyr 2020 | Rhoddodd Rheolwr Prosiect Cyflwr Terfynol yr Ymgeisydd adroddiad diweddaru ar y gwaith datblygu a wnaed i gefnogi'r gwaith o ddymchwel cyfadeilad y pyllau a'r gwaredu cysylltiedig ar y safle. |
| 10 Mehefin 2021 | Rhoddodd Rheolwr Prosiect Cyflwr Terfynol yr Ymgeisydd adroddiad diweddaru ar y gwaith datblygu a wnaed i gefnogi'r gwaith o ddymchwel cyfadeilad y pyllau a'r gwaredu cysylltiedig ar y safle. Tynnwyd sylw at y ffaith bod canllawiau 'GRR' wedi cael eu cyhoeddi yn 2018 ar gyfer gweithredwyr a rhanddeiliaid i ystyried yr opsiwn gorau ar gyfer gwaredu'r gwastraff ymbelydrol sydd wedi'i halogi'n ysgafn sy'n cael ei gynhyrchu yn ystod gweddill y rhaglen ddatgomisiynu. Cadarnhawyd bod y strategaeth ar gyfer cyfadeilad pyllau Trawsfynydd wedi cael ei diwygio yn unol â hynny. |
| 18 Tachwedd 2021 | Darparodd Rheolwr Prosiect Cyflwr Terfynol yr Ymgeisydd a'r Rheolwr Peiriannau a Strwythurau adroddiad diweddaru ar gynigion dymchwel cyfadeilad y pyllau a chyflwynodd amserlen ar gyfer cynnydd. |
| 9 Mehefin 2022 | Rhoddodd Rheolwr Prosiect Cyflwr Terfynol yr Ymgeisydd adroddiad diweddaru ar y gwaith datblygu a wnaed i gefnogi'r gwaith o ddymchwel cyfadeilad y pyllau a'r gwaredu cysylltiedig ar y safle. Tynnwyd sylw arbennig at ffurfwedd y cyfadeilad a'r rhaglen waith gyfredol (gan gynnwys y cynllun cyfathrebu). |
| 8 Mehefin 2023 | Darparodd Rheolwr Prosiect Cyflwr Terfynol yr Ymgeisydd adroddiad diweddaru ar gynigion dymchwel cyfadeilad y pyllau a chyflwynodd amserlen ar gyfer cynnydd. |

1.17 Mae'r SSG yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd drwy gyhoeddi dyddiadau a chofnodion cyfarfodydd ar ei wefan benodol. Cyfeiriad gwefan Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd yw:

https://magnoxstakeholdergroups.com/site/trawsfynydd/

1.18 Mae dyfyniadau (wedi'u golygu er eglurder) o gofnodion cyfarfodydd perthnasol y Grŵp Rhanddeiliaid Safle wedi'u cynnwys yn Atodiad II.

## Grŵp Cyflwr Terfynol Trawsfynydd (TESG)

1.19 Mae Grŵp Cyflwr Terfynol Trawsfynydd (TESG) wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ar ryw ffurf ers mis Mai 2016, a'i brif bwrpas yw: nodi a cheisio datrys materion a allai fod yn rhwystr i ddiffinio cyflwr terfynol y safle a/neu gyflawni gwaith yn effeithiol tuag ato; a sicrhau nad oes "unrhyw beth annisgwyl" cyn ac yn ystod ymgysylltu cyhoeddus ehangach.

1.20 Mae gan TESG yr aelodau canlynol:

- Rheolwr Integreiddio’r Safle (dirprwy Cyfarwyddwr Cau’r Safle) – Cadeirydd
- Rheolwr EHSSQ (neu ddirprwy)
- Rheolwr Cyflwr Terfynol
- Arweinydd Technegol Cyflwr Terfynol
- Pennaeth Proffesiwn corfforaethol Amgylchedd a Gwastraff (neu ddirprwy)
- Arolygydd safle Cyfoeth Naturiol Cymru (neu ddirprwy)
- Cynrychiolydd Asiantaeth yr Amgylchedd i gefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru
- Arolygydd safle’r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) (neu ddirprwy)
- Cynrychiolydd yr NDA
- Cynrychiolydd/Cynrychiolwyr yr Awdurdod Cynllunio

1.21 Nid fforwm yw’r TESG sy’n cynnwys cynrychiolaeth uniongyrchol o’r gymuned leol, ac mae llawer o’r drafodaeth sy’n digwydd yn ymwneud naill ai â’r cynnydd tuag at wneud y ceisiadau cynllunio a thrwyddedu [2] ar gyfer ceisiadau dymchwel y pyllau a gwaredu, neu’n ymwneud â materion technegol manwl. O’r herwydd, ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach yn y Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol hwn.

## Gweithdy Rhanddeiliaid

1.22 Cynhaliwyd gweithdy a drefnwyd gan yr ymgeisydd yng Nghanolfan Prysor (ger Safle Trawsfynydd) ar 29ain Tachwedd 2016. Roedd y gweithdy’n cynnwys cynrychiolwyr yr Ymgeisydd, yr NDA, sefydliadau rheoleiddio ar gyfer Cymru, Lloegr a’r Alban, a chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid lleol. Roedd yr aelod lleol o Senedd Cymru yn bresennol, yn ogystal â chynrychiolydd NuLeAF. Roedd y gweithdy’n cynnwys deialog ar fanteision ac anfanteision strategaethau datgomisiynu posibl ar gyfer cyfadeilad pyllau Trawsfynydd.

## Cyflwyniadau gan Gynghorau Cymuned

1.23 Rhoddwyd cyflwyniadau i Gynghorau Cymuned Trawsfynydd a Maentwrog yn 2017.

## Llythyr Cais am Adborth gan Gynghorwyr

1.24 Ar 21 Rhagfyr 2022, anfonodd yr Ymgeisydd lythyr (copi wedi’i amgáu yn Atodiad III) at gynghorwyr lleol yn disgrifio’r cynigion ac yn gofyn am adborth cyn 31 Ionawr 2023. Pwrpas y llythyr hwn oedd deall barn pobl leol am y cynigion.

1.25 Ar 24 Mawrth 2023, trefnodd yr Ymgeisydd ymweliad â safle Trawsfynydd ar gyfer Aelodau Pwyllgor Cynllunio ENPA. Rhoddwyd cyflwyniad ar y safle yn egluro’r cynigion a dangoswyd cyfadeilad y pyllau a safle ehangach y cais i’r Aelodau.

## Digwyddiadau Ymgynghori / Ymgysylltu â’r Cyhoedd

1.26 Mae tri digwyddiad ymgynghori â’r cyhoedd wedi’u staffio wedi’u cynnal mewn perthynas â’r cynigion. Roedd y rhain ar ffurf sesiynau galw heibio. Yn ogystal, i gefnogi'r digwyddiadau cyhoeddus, trefnwyd pedair arddangosfa heb staff mewn llyfrgelloedd lleol ac arddangosfa rithwir ar-lein a gynhaliwyd ochr yn ochr â'r digwyddiadau cyhoeddus. Roedd y cyfnod ymgysylltu ac ymgynghori â’r cyhoedd rhwng 10 Gorffennaf 2023 a 31 Awst 2023, cyfanswm o 53 diwrnod yn gynhwysol. Daeth 32 o bobl i’r tri digwyddiad galw heibio, a chwblhawyd 54 o ffurflenni adborth. Roedd 76% o bobl wedi mynychu arddangosfa (naill ai mewn digwyddiad cyhoeddus neu mewn arddangosfa heb staff). Roedd y gweddill (24%) wedi mynychu ar-lein.

1.27 Mae Atodiad IV yn cynnwys manylion y digwyddiadau hyn, yr ymgyrch hyrwyddo a chyhoeddusrwydd cyn ac yn ystod y digwyddiadau, cyfranogiad y wasg leol, y pwyntiau allweddol a godwyd ac ymatebion yr Ymgeisydd.

## Gweithdy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)

1.28 Yn dilyn trafodaeth gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac Uned Gymorth Asesu’r Effaith ar Iechyd Cymru, penderfynodd yr Ymgeisydd baratoi Asesiad o’r Effaith ar Iechyd ar gyfer y datblygiad arfaethedig ac, fel rhan o’r asesiad hwn, cynhaliodd weithdy i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac aelodau o’r cyhoedd.

1.29 Pwrpas y gweithdy oedd i’r Ymgeisydd ddeall unrhyw bryderon a allai fod gan bobl/grwpiau ynghylch unrhyw effeithiau iechyd canfyddedig y datblygiad arfaethedig. Mae Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod Dogfen: TRAWS-24-001), sy’n rhoi manylion y gweithdy hwn, y prif bwyntiau a godwyd ac ymateb yr Ymgeisydd, wedi cael ei gynhyrchu ac wedi cael ei gyflwyno fel rhan o’r cais hwn.

[2] Mae’n golygu cais i amrywio trwydded amgylcheddol y safle o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, fel sy’n ofynnol er mwyn gallu gwaredu gwastraff ymbelydrol solet ar y safle.

### Cyhoeddusrwydd ac Ymgynghoriad ar y Cais Cyn Cynllunio Gorfodol

1.30 Yn unol ag erthygl 2F Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd), sy'n ei gwneud yn ofynnol i fanylion ynghylch sut y mae'r Ymgeisydd wedi cydymffurfio ag adran 61 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a fewnosodwyd i Ddeddf 1990 gan adran 18 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015), ymgymerwyd â cyhoeddusrwydd ac ymgynghori statudol cyn ymgeisio. Adroddir ar hyn mewn adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio ar wahân.

1.31 Roedd y cyhoeddusrwydd cyn ymgeisio a oedd yn ofynnol dan erthygl 2C y gorchymyn yn cynnwys:

- Codi hysbysiad safle yn unol ag erthygl 2C(1)(a)(i) y gorchymyn;
- Rhoi hysbysiad ysgrifenedig i dirfeddianwyr cyfagos yn unol ag erthygl 2C(1)(a)(ii) y gorchymyn;
- Dogfennau cais cynllunio drafft gan gynnwys Datganiad Amgylcheddol ar gael ar-lein (https://www.avisonyoung.co.uk/statutory-public-consultations) i'r ymgyngoreion a'r gymuned ehangach eu harchwilio yn unol ag erthygl 2C(1)(b) y gorchymyn;
- Darparu ffurflen ar-lein drwy'r wefan uchod y gellid ei llenwi ar-lein, neu ei lawrlwytho, ei llenwi a'i phostio neu ei hanfon ar e-bost yn uniongyrchol at Avison Young neu'r Ymgeisydd.

1.32 Roedd yr ymgynghoriad cyn ymgeisio a oedd yn ofynnol dan erthygl 2D y gorchymyn yn cynnwys:

- Hysbysiad yn unol ag Atodlen 1B y gorchymyn wedi'i roi i ymgyngoreion cymunedol: y cynghorydd ward ar gyfer ward Trawsfynydd a Chyngor Cymuned Maentwrog yn unol ag erthygl 2D(1)(a). Yn ogystal, mae Cyngor Tref Blaenau Ffestiniog a Chyngor Cymuned Ganllwyd hefyd wedi cael eu hysbysu, a darparwyd dolen i'r wefan ble gellir dod o hyd i'r dogfennau cais cynllunio drafft arni;
- Hysbysiad yn unol ag Atodlen 1C y gorchymyn wedi'i roi yn ysgrifenedig i ymgyngoreion arbenigol yn unol ag erthygl 2D(1)(b): Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (yn Saesneg yn unig), y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (yn Saesneg yn unig), Dŵr Cymru, Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Adran Priffyrdd y Cyngor, ac Adran Rheoli Datblygu'r Cyngor a dolen i'r wefan lle gellir gweld y dogfennau cais cynllunio drafft; a
- Darparu ffurflen ar-lein drwy'r wefan uchod y gellid ei lawrlwytho, ei llenwi a'i phostio neu ei hanfon ar e-bost yn uniongyrchol at Avison Young neu'r Ymgeisydd.

# 4. Crynodeb a Chasgliad

**4.1** Paratowyd y Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol hwn i gyd-fynd â chais cynllunio ar gyfer:

i. dymchwel cyfadeilad pyllau Trawsfynydd;
ii. mewnlenwi gwagleoedd o dan y ddaear yng nghyfadeilad y pyllau, yn bennaf gyda sgil-gynhyrchion gwaith dymchwel sydd wedi'u halogi'n ymbelydrol, a chadw'r mewnlenwi'n barhaol (sef gwaredu gwastraff ymbelydrol mewn termau trwyddedu amgylcheddol);
iii. cadw'n barhaol strwythurau gweddilliol o dan y ddaear cyfadeilad y pyllau, ac o'i gwmpas, sydd wedi'u halogi'n ymbelydrol (sydd, yn nhermau trwyddedu amgylcheddol, hefyd yn cynnwys gwaredu gwastraff ymbelydrol);
iv. capio ôl troed cyfadeilad y pyllau blaenorol gyda chap concrit; a
v. addasiadau i'r draeniau lleol ar y cap concrit ac o'i gwmpas.

**4.2** Mae'r ymgysylltu a'r ymgynghori cyn ymgeisio wedi cynnwys:

- Trafodaethau cyn ymgeisio gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol
- Cais am farn sgrinio a chwmpasu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol
- Cyflwyniadau a thrafodaethau fel rhan o gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (SSG)
- Cyflwyniadau a thrafodaethau fel rhan o gyfarfodydd Grŵp Cyflwr Terfynol Trawsfynydd (TESG)
- Trafodaeth mewn gweithdy rhanddeiliaid ym mis Tachwedd 2016 oedd yn cynnwys cynrychiolwyr yr Ymgeisydd, yr NDA, sefydliadau rheoleiddio ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban, a chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid lleol.
- Cais am adborth gan Gynghorwyr etholedig
- Tri digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd â staff a phedair arddangosfa arall heb staff
- Gweithdy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
- Ymgynghoriad cyn ymgeisio gorfodol

**4.3** Mae'r adborth ysgrifenedig a gafwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd wedi cael ei gofnodi a'i ystyried gan yr Ymgeisydd. Darparwyd ymatebion i sylwadau / ymholiadau penodol.

**4.4** Er yr adborth negyddol cyfyngedig, codwyd rhai materion a phryderon. Yn gyffredinol, mae'r Ymgeisydd wedi egluro manteision y cynigion ac wedi ceisio tawelu unrhyw bryderon penodol drwy egluro hyd a lled y cynigion, y rheolaethau rheoleiddiol ac ati. Lle bo'n briodol, darparwyd gwybodaeth ychwanegol fel rhan o ddogfennau'r cais cynllunio.

# Atodiad 1

Cynllun Lleoliad y Safle

# Atodiad II

## Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (SSG)

Cymerwyd y canlynol o gofnodion y cyfarfodydd SSG amrywiol y cyfeirir atynt, wedi'u golygu er eglurder.

## 06 Mehefin 2016

Rhoddodd IW, Rheolwr Prosiect Cyflwr Terfynol, Magnox Ltd, gyflwyniad ar optimeiddio cyflwr terfynol y safle a rheoli gwastraff cysylltiedig.

Esboniodd IW y dull gweithredu presennol sy'n ymwneud â safleoedd Trwyddedig Niwclear, a'r trwyddedau a'r caniatadau amrywiol cysylltiedig, h.y. cyfraniad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (Diogelwch Niwclear), Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd (Diogelu'r Amgylchedd/Cyhoedd), a'r Awdurdod Lleol drwy'r fframwaith cynllunio a datblygu. Y cwestiwn sy'n cael ei ystyried gan y Llywodraeth yw a oes ffordd fwy cytbwys o reoleiddio safleoedd yn ystod blynyddoedd olaf y cylch bywyd, fel a oes angen rheoleiddiwr diogelwch niwclear arbenigol ar ôl delio â phob perygl niwclear sylweddol a phan fo gweddill y gwaith sy'n gysylltiedig yn gyffredinol o natur gonfensiynol e.e. gweithgareddau dymchwel.

Cyfeiriodd IW at y Canllawiau drafft ar Ofynion ar gyfer Rhyddhau Safleoedd Niwclear o'r Rheoliad Sylweddau Ymbelydrol (GRR), a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Asiantaethau'r Amgylchedd. Y nod yw meddwl beth yw'r peth iawn i'w wneud â gwastraff. Mae'n seiliedig ar reoli risgiau a datblygu atebion mwy cynaliadwy. Eglurodd IW mai pwrpas y cyflwyniad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am GRR drafft newydd a rhoddodd drosolwg o'r rhaglen waith gysylltiedig ac effaith bosibl hyn ar gyflwr terfynol y safle.

Lle bo hynny'n briodol ac wedi'i optimeiddio, gallai rhywfaint o wastraff datgomisiynu lefel isel aros ar y safle yn hytrach na chael ei gludo i'w waredu oddi ar y safle, a'r manteision fyddai:

- Llai o wastraff yn cael ei gludo i'w waredu
- Llai o ddeunydd wedi'i fewnforio i lenwi gwagleoedd
- Diogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Gwarchod yr amgylchedd
- Defnyddio llai o adnoddau
- Gwell gwerth am arian
- Mae'r mathau o wastraff yn cynnwys: Gwastraff Lefel Isel; gwastraff â chyfaint cymharol uchel/perygl isel; gwastraff sy'n gysylltiedig â dymchwel strwythurau/strwythurau segur o dan y ddaear, gan gynnwys tanciau/gwagleoedd concrit, rwbel concrit/ brics, pibellau/draeniau wedi'u claddu a phridd

Gallai'r opsiynau o ran beth i'w wneud â'r gwastraff gynnwys ei gludo oddi ar y safle ar y ffordd i'w waredu oddi ar y safle hyd at adeiladu cyfleuster gwaredu gwastraff pwrpasol ar y safle (nid yw'r opsiwn olaf hwn yn cael ei ystyried ar gyfer Trawsfynydd), ymysg pethau eraill. Mae'n wir yn waith cydbwyso sy'n ceisio sefydlu'r opsiwn mwyaf cynaliadwy o ystyried amrywiaeth o ffactorau.

Mae tri safle 'arwain a dysgu' wedi cael eu dewis i dreialu'r canllawiau dros y flwyddyn nesaf (gyda chyfraniad y rheoleiddiwr) – Winfrith, Dounreay a Thrawsfynydd. Y nod yw datblygu atebion wedi'u hoptimeiddio ar gyfer y safleoedd hyn ac asesu'r amseru ar gyfer ystyriaethau cynllunio ac ati. Byddai'r GRR yn cael ei adolygu fel y bo'n briodol a byddai'r dysgu'n cael ei gymhwyso i safleoedd eraill.

I grynhoi, mae hyn yn ymwneud â threialu Canllawiau Rheoleiddio newydd fel rhan o adolygiad ehangach o reoleiddio safleoedd niwclear. Mae'n rhaid i Magnox ddatblygu cyflwr terfynol wedi'i optimeiddio a allai olygu gadael rhywfaint o wastraff gweithgaredd isel yn ei le. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes dim wedi'i benderfynu eto ac y bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cyflwr terfynol wedi'i optimeiddio.

**<u>Sesiwn Holi ac Ateb</u>**

**RT**: O ran Pyllau er enghraifft, sut mae hyn yn effeithio ar amseru datgomisiynu?
**IW**: Ni ddylai hyn gael ei effeithio.
**IWi**: Gan feddwl am y tri safle hyn, ni fyddech yn gallu gwneud hyn gyda safleoedd eraill oherwydd eu bod yn agos at y môr. Rhaid ichi ddod i greu dealltwriaeth ag ardaloedd lleol. Mae potensial i wneud llawer o arbedion yma. Dylai rhywbeth ddod yn ôl i'r gymuned. O ran bod yn agos at y môr, gyda lefelau'n codi, efallai na fyddwch yn gallu cyflawni hynny.
**Y Cynghorydd JR:** Mae'n debyg mai ymarfer arbed arian yw hwn.

**IW**: Mae hyn yn mynd yn ôl at yr opsiynau. A yw'n gwneud synnwyr i symud pethau o un rhan o'r wlad i'r llall? Gallai fod arbedion mewn meysydd eraill hefyd, fel diogelwch confensiynol, osgoi dos i weithwyr a lleihau effaith cludo llawer iawn o wastraff oddi ar y safle ar yr amgylchedd. Mae angen ystyried yr holl ffactorau hyn fel rhan o'r ymarfer optimeiddio.
**Y Cynghorydd JR:** Dywedwyd wrthym am dri phecyn. Nid oes mandad clir o hyd. Pam mae'r broses hon yn cymryd cymaint o amser?
**MM:** Bu'n rhaid i ni fynd drwy waith cynllunio manwl ac ati o ran Pyllau. Nes i ni ddadlygru'r Pyllau, roedd hi'n anodd gwneud gwaith oherwydd doedden ni ddim eisiau i bobl ddod i gysylltiad ag ymbelydredd. O safbwynt safle, mae angen inni wybod pwy y mae angen inni ymgysylltu â hwy o ran opsiynau diwygiedig, ac mae hwn yn gyfle i edrych eto ar bethau. Mae'r tri safle hyn wedi chwarae rhan hollbwysig. Rydym wedi cael trafodaethau gyda'r Parc Cenedlaethol ac wedi rhagweld y canllawiau'n briodol. Hyd nes y byddwn yn gwybod beth sydd yn y tir, ni allwn wneud dim. Fodd bynnag, mae gennym ddarlun cliriach yn awr.
**RC:** Mae sawl rheswm pam mae hyn wedi cymryd cymaint o amser. Rhaid inni gydnabod yr angen i wybod beth sy'n digwydd a phryd. Mae gennym haenau o reoliadau ac mae angen inni wybod pwy sy'n gwneud beth, a dyma fu'r cymhelliad i hyn i gyd. Bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear o bosibl yn gadael y broses ar adeg benodol ac mae'n rhaid i'r DU ddangos ei bod yn gallu delio â gwaddol niwclear.
**Y Cyngh GT:** Mae llawer o waith i'w wneud i werthu hyn i'r gymuned. O ran Pyllau, er enghraifft, efallai y bydd pobl yn ystyried gwneud y peth iawn ymhen 20 mlynedd, ond erbyn hynny mae'n eithaf posibl y bydd lefelau'r môr wedi codi a bydd yn rhaid dod â phethau i mewn i Traws. Dyna'r pryder.
**IW**: Nid oes unrhyw fwriad i gymryd gwastraff o safleoedd eraill i'w waredu yn Nhrawsfynydd.
**Y Cyngh GT:** Ymhen 20 mlynedd, efallai y bydd rhywun mewn sefyllfa debyg yn dweud 'awn ag ef i Traws'. Mae'n bryder lleol.
**RC:** Rhaid cofio mai treial yw hwn. Mae lefel y manylder yn eithriadol, felly os byddwch yn llenwi gwagleoedd ac yn gadael concrit wedi'i halogi, rhaid i'r achos diogelwch fod am gannoedd o flynyddoedd yn y dyfodol, gyda monitro parhaus. O ran Rheoliadau, byddem yn defnyddio pawb sy'n bosibl wrth edrych ar y gwaith i sicrhau'r mewnbwn gorau posibl.
**Y Cyngh TE:** Pyllau yw'r prif beth sy'n peri pryder. Pwy fydd yn edrych ar eu cyflwr ymhen 60, 70 neu 100 mlynedd? Maen nhw'n bendant yn mynd i ddirywio, ond pwy sy'n mynd i'w gwirio a gofalu amdanyn nhw?
**MM:** Mae gwaith wedi'i wneud ac yr ydym wedi edrych ar y strwythur. Rhaid i ni ddangos y sail dros dybiaethau a chael timau o arbenigwyr lleol. Os bydd unrhyw beth yn anghyflawn, ni chaiff ei gymeradwyo. Os mai'r ateb fyddai gadael Pyllau yn y ddaear, byddai'r asesiad yn mynd i'r afael â'r cwestiwn "am ba hyd y byddai hyn yn cael ei ystyried yn ddiogel"? Ar hyn o bryd, gallem gyflwyno achos sy'n cwmpasu tua 150 o flynyddoedd, ac ar ôl hynny byddai'r perygl yn cael ei leihau'n sylweddol.

# 5 Rhagfyr 2016

Cyflwynodd IW ei adroddiad fel cyflwyniad PowerPoint ar y sgrin. Dyma oedd y diweddariad diweddaraf yn dilyn gweithdy i randdeiliaid yr wythnos flaenorol.

Rhoddwyd crynodeb a throsolwg o'r ddogfen GRR arfaethedig (Canllawiau ar Ofynion Rhyddhau) gan Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd, h.y. pan fyddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon ar gyflwr y safle, byddai'n cael ei drosglwyddo wedyn i'r sefydliadau nesaf, fel yr awdurdod lleol.
Cyflwynwyd amserlen o'r gwaith o fis Tachwedd 2016 hyd at Gydsyniad Brenhinol yn ystod haf 2019 ar y sgrin. Pe bai materion yn codi yn ystod yr amserlen hon, gallai achosi oedi.

Rhoddwyd esboniad o GRR, roedd hyn yn cynnwys pum egwyddor sylfaenol:
1) Gwarchodaeth rhag Peryglon Radiolegol
2) Optimeiddio: "mor isel ag sy'n rhesymol gyraeddadwy" (ALARA), gan ystyried ffactorau economaidd a chymdeithasol
3) Gwarchodaeth gyfatebol yn erbyn peryglon nad ydynt yn rhai radiolegol
4) Dibyniaeth ar weithredoedd pobl (diogelwch goddefol)
5) Bod yn Agored a Chynwysoldeb (ymgynghori, esbonio, trywydd archwilio)

Rhoddwyd yr egwyddorion uchod ar waith gan 14 o ofynion manwl. Byddai hyn yn gofyn am ddau fath allweddol newydd o ddogfennaeth, h.y. cynllun rheoli gwastraff ac achos diogelwch amgylcheddol ar draws y safle (SWESC).

Roedd tyllau turio newydd wedi cael eu drilio i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch sut mae'r safle'n perfformio nawr ac yn y dyfodol.

Roedd safle Trawsfynydd wedi cael ei gynnig gan yr NDA fel un o 3 safle arwain a dysgu. Cafodd dibenion treialon yn Nhrawsfynydd eu rhestru, h.y. i brofi pa mor hawdd oedd defnyddio'r GRR drafft; i gael gwared ar faterion i'w datrys gan reoleiddwyr cyn i'r GRR gael ei gyhoeddi'n ffurfiol a chyn i'w ofynion ddod yn orfodol; i ddechrau proses

o ddiffinio cyflwr terfynol safle wedi'i optimeiddio ar gyfer Trawsfynydd ac i egluro a fyddai'n rhaid i Magnox Ltd wneud ceisiadau ffurfiol i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer unrhyw waredu arfaethedig ar y safle.

Cyflwynwyd manylion yr hyn a oedd yn ymwneud ag optimeiddio (egwyddor 2). Rhoddwyd crynodeb yn cymharu manteision ac anfanteision opsiynau ag amrywiaeth o ffactorau er mwyn canfod yr atebion gorau. Y pwynt allweddol a nodwyd oedd na fydd o reidrwydd yn arwain at dynnu'r holl ymbelydredd oddi ar y safle. Roedd yn rhaid i'r safle ddangos i'r GRR bod popeth posibl yn cael ei wneud a bod yn rhaid i ddosau i'r cyhoedd fod mor isel ag y gellid yn rhesymol eu cyflawni.

Adroddodd IW ar y gweithdy Rhanddeiliaid a gynhaliwyd yng nghaffi'r llyn yr wythnos flaenorol; rhoddwyd crynodeb ac roedd pawb a oedd yn bresennol wedi rhoi mewnbwn i'r GRR. Roedd pecyn briffio helaeth wedi'i ddarparu cyn y gweithdy. Rhestrwyd pwrpas ac amcanion y gweithdy, a'r cam cyntaf oedd yr Asesiad Opsiynau Strategol. Cyflogwyd ymgynghorwyr i helpu gyda'r broses hon. Opsiwn 1 oedd tynnu'r holl ddeunyddiau ymbelydrol o'r safle i'w gwaredu mewn mannau eraill. Roedd opsiwn 2 yn cynnwys gadael rhai deunyddiau ymbelydrol ar y safle mewn gwahanol fesurau. Pwrpas y gweithdy oedd profi'r ateb wedi'i optimeiddio. Cyflwynwyd ffactorau a ystyriwyd, a oedd yn cynnwys Iechyd a Diogelwch i'r Cyhoedd, Iechyd a Diogelwch i weithwyr, Lleihau Peryglon a Diogelwch. Ystyriwyd ffactorau amgylcheddol, effaith economaidd-gymdeithasol, baich ar genedlaethau'r dyfodol, gofynion strategol yr NDA, hyfywedd a gwerth am arian hefyd. Profwyd pob opsiwn yn erbyn y ffactorau hyn. Canlyniad y diwrnod oedd nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng y ddau opsiwn, ond Opsiwn 2 oedd y mwyaf ffafriol. Y camau nesaf fyddai cyhoeddi adroddiad ym mis Ionawr 2017 a gwaith pellach i optimeiddio Opsiwn 2. Pwysleisiwyd nad oedd hyn yn rhoi'r golau gwyrdd i waredu gwastraff, dim ond ar gynllunio. Byddai'r Cynllun Rheoli Gwastraff cychwynnol a'r Achos Diogelwch Amgylcheddol ar gyfer y Safle Cyfan yn cael eu cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru i gael sylwadau arnynt ym mis Mai 2017, a byddai'r rhain yn cael eu datblygu ymhellach yn ôl yr angen yn 2017/18, gydag ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau.

Cafodd yr amserlen ar gyfer Trawsfynydd i fynd i'r afael â gofynion GRR ei dangos ar y sgrin, gan ddechrau yn 2016 hyd at ryddhau o GRR ar ôl 2083. Byddai modd gwrthdroi unrhyw waith a wneir yn ystod y llinell amser.

**<u>Sesiwn Holi ac Ateb</u>**
Gofynnodd **SM, rhanddeiliad o Flaenau Ffestiniog**, am fanylion ynghylch hyfywedd Opsiwn 3, h.y. a fyddai posibilrwydd byth o dwnelu'n ddwfn o dan y ddaear a gwaredu ar y safle fel y maent yn ei wneud yn y Ffindir.
Dywedodd **IW** y byddai'r dull mwyaf diogel o waredu gwastraff yn cael ei ymchwilio. Roedd gwaredu yn Nhrawsfynydd o ran GRR yn wastraff lefel isel ac nid yw ar yr un lefel â gwaredu daearegol dwfn.
**IWi, Trawsnewid** – roedd y Daily Post wedi adrodd ar y bwriad i barhau i ddatgomisiynu, a oedd yn sôn am strwythur y pyllau a oedd yn weddill. Roedd dealltwriaeth IWi yn wahanol.
Cadarnhaodd **IW** mai'r cynllun a oedd yn cael ei ystyried oedd dymchwel dau ben cyfadeilad y pyllau, gyda'r rhan ganol yn cael ei rhoi mewn storfa ddiogel.
Ychwanegodd **MM** nad oedd hwn yn benderfyniad eto, ei fod yn rhan o'r cynigion presennol yn unig, y mae'n rhaid ymgynghori arnynt, ac nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r cynllunwyr ynghylch sut gallai cyfadeilad y pyllau edrych, a byddai modd gwrthdroi beth bynnag a wnawn yn awr hyd at 2029. Roedd rhan gyntaf erthygl y Daily Post yn ymwneud â datgomisiynu parhaus ac nid y gweithdy diweddar.
**JJ.** Dywedodd yr NDA fod Strategaeth yr NDA yn datgan y byddai'n well gennym ddatgomisiynu parhaus gan y gallai fod mwy o fanteision, gan gynnwys manteision cost. Fodd bynnag, mae fforddiadwyedd yn ystyriaeth allweddol.
Cyfeiriodd **MW, Cyngor Cymuned Maentwrog**, at ddogfen a gyhoeddwyd yn 2006 a dywedodd fod hyn wedi'i drafod flynyddoedd yn ôl, a mynegodd bryder ynghylch yr amserlen, h.y. y byddai'r safle'n cael ei adfer cyn gynted â phosibl ac mor ddiogel â phosibl heb unrhyw doriadau ariannol. Mynegodd ei bryder am yr ansicrwydd mynych a gofynnodd pam na roddwyd sylw i'r materion hyn pan gyflwynwyd cynlluniau storfa ddiogel adeilad yr adweithydd.
Roedd **IW** yn cydnabod bod y dyddiadau wedi newid a bod disgwyliadau wedi cael eu datblygu gyda'r rheoleiddwyr.
Ychwanegodd **MM** fod modd cyflawni'r cynllun cyffredinol ar gyfer gofal a chynnal a chadw a gyflwynwyd i'r NDA. Fodd bynnag, roedd rhai elfennau anhysbys ac ansicr yn dal i fodoli. Roedd tyllau turio wedi cael eu drilio i gael gwell dealltwriaeth o nodweddion uniadau adeiladu'r pyllau. Mae'r gwastraff lefel isel a nodwyd bellach wedi'i storio yn y Cyfleuster Storio Dros Dro a oedd 18 mis yn ôl yn dal i fod yn y ddaear.
Ychwanegodd **MW** y byddai'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol ac nad oedd yn deg i genedlaethau'r dyfodol orfod gwneud y gwaith.
Pwysleisiodd **IW** fod y safle wedi gorfod ymateb i'r GRR drafft a gyhoeddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
Dywedodd **RC, Asiantaeth yr Amgylchedd**, nad oedd ateb hawdd i'r dyddiadau ac ni allai addo bod y dyddiadau yn bendant, ond bod mwy o fanylder a mwy o eglurder ac felly mae'n welliant.

Gofynnodd y **Cynghorydd GT, Cyngor Gwynedd (Penrhyndeudraeth)** a fyddai gadael unrhyw wastraff ar y safle yn agor y drysau i safleoedd eraill storio gwastraff yn Nhrawsfynydd. Credai fod ystyried canfyddiad pobl leol yn bwysig iawn, er enghraifft egluro'r gwahaniaeth rhwng gwastraff lefel isel a lefel uchel.
Cadarnhaodd **IW** nad oedd bwriad i fewnforio gwastraff o safleoedd eraill ac ail-ddatganodd mai dim ond gwastraff o Drawsfynydd sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd a chytunodd bod canfyddiad y cyhoedd o'r pwys mwyaf.
Dywedodd y **Cynghorydd TE – Cyngor Gwynedd (Trawsfynydd)** fod gostwng uchder hefyd yn bwysig.
Cadarnhaodd **IW** fod y cynllun yn dal i gynnwys lleihau uchder a dywedodd y byddai gwastraff dymchwel yn cael ei ailddefnyddio ar y safle yn unol â rheoliadau Cyfoeth Naturiol Cymru.
Cyfeiriodd **MM** at asbestos ar y safle. Roedd Trawsfynydd wedi cael archwiliad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn ddiweddar ac adroddwyd bod trefniadau Trawsfynydd yn gadarn, ac roedd hynny'n gysur. Roedd y safle bob amser yn ymwybodol o ofynion y rheoleiddiwr a chanfyddiad y cyhoedd. Ychwanegodd fod y safle'n falch iawn o fod wedi cael ei ddewis ar gyfer y GRR drafft a bod y wybodaeth gymhleth sydd ynddo wedi cael ei chyfleu mor glir â phosibl yn allanol. Yr oedd yn bryderus y gallai pobl sy'n darllen y Daily Post gael golwg wahanol ar yr hyn yr oedd y safle'n ei wneud.

# 4 Rhagfyr 2017

Rhoddodd IW ddiweddariad cynnydd ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r treial 'Canllawiau ar Ofynion Rhyddhau' (GRR):

Mae Cynllun Oes Trawsfynydd 2017 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r safle ei wneud o dan gontract. Arweiniodd hyn at symud y safle o fodel tri blwch (hy dwy storfa ddiogel adweithydd ac un storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol) i fodel pum blwch sy'n cynnwys dymchwel canol cyfadeilad y pyllau yn rhannol er mwyn creu dwy storfa ddiogel ychwanegol o'r rhannau sydd ar ôl. Y bwriad yw delio â'r strwythurau sy'n weddill wrth Glirio'r Safle'n Derfynol. Wrth gwrs, bydd angen sail i'r Cynllun Oes hwn o hyd ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Roedd y treial Arwain a Dysgu ar gyfer y GRR drafft yn edrych ar ddichonoldeb cyflwr terfynol wedi'i optimeiddio a allai gynnwys gwaredu gwastraff ymbelydrol wedi'i halogi'n ysgafn ar y safle. Roedd hefyd yn ceisio egluro, cyn belled ag y bo modd, y gofynion cynllunio tebygol, yr amserlenni a'r effaith y byddai cyflawni cyflwr terfynol y safle yn ei chael ar y rhaglen waith bresennol.

Mae'r treial bellach wedi'i gwblhau'n ffurfiol ac ar sail yr hyn y mae'r Rheoleiddwyr wedi'i weld hyd yma, maent wedi nodi y gallai Magnox gyflwyno achos technegol dros waredu gwastraff ymbelydrol ar safle Trawsfynydd. Fodd bynnag, dim ond dechrau'r daith yw'r treial gan fod angen rhagor o dystiolaeth ac eglurhad cyn y gallai Magnox fod mewn sefyllfa i gyflwyno cais yn ffurfiol i Gyfoeth Naturiol Cymru i'w waredu ar y safle. Byddai cais o'r fath yn annhebygol tan o leiaf 2020-21.

Mae dau bapur strategaeth yn cael eu datblygu ar gyfer Uwch Bwyllgor Strategaeth yr NDA sy'n edrych ar allbynnau'r broses optimeiddio ynghyd ag argymhelliad ar gyfer sut gallai cyflwr terfynol y safle yn Nhrawsfynydd edrych a'r potensial ar gyfer unrhyw waredu ar y safle.

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle, gan gynnwys nifer o sesiynau briffio i grwpiau lleol, cyfarfodydd grŵp strategol, gweithdy Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyfoeth Naturiol Cymru ac astudiaethau pellach ar opsiynau (ar draws y fflyd).

Rhagwelir y bydd fersiwn terfynol y GRR yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2018.

Bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Reolaeth Reoleiddiol Gymesur ym mis Chwefror 2018 i ystyried rheoleiddio safleoedd yn y dyfodol yng nghamau olaf datgomisiynu. Bydd y gwaith hwn yn cael effaith uniongyrchol ar y potensial ar gyfer gwaredu ar Safleoedd Trwyddedig Niwclear.

Roedd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyflwr terfynol safle Trawsfynydd yn mynd rhagddo ac ar 20 Chwefror, byddai Trawsfynydd yn cynnal ymweliad rhwng uwch staff Cyfoeth Naturiol Cymru a staff Llywodraeth Cymru.

**<u>Sesiwn Holi ac Ateb</u>**

Cadarnhaodd **IW** yr amserlen ar gyfer y papurau i'w cyflwyno i'r NDA, h.y. roedd y papur pyllau ar draws y fflyd a bydd yn ystyried yr holl gyfleusterau pyllau sy'n weddill a byddai'r papur cyflwr terfynol, sy'n benodol i Drawsfynydd, yn cael ei gyflwyno erbyn mis Rhagfyr 2018.
Holodd **MW** am ba hyd y byddai'r ymgynghoriad PRC yn para; cadarnhawyd bod hyn yn 12 wythnos.
Pwysleisiodd **IW** na fyddai'r ymgynghoriad ond yn ystyried y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 ac nid gwaredu ar y safle, a fyddai'n ymgynghoriad ar wahân.

Dywedodd **JR** y byddai'n gwneud mwy o synnwyr ariannol gwaredu ar y safle, ond roedd yn cwestiynu'r samplau a gymerwyd hyd yma, ac nad oedd yn glir pa lefel o waredu oedd yn cael ei hystyried ar y safle.

Atebodd **IW** fod samplau a data ar gyfer lefelau halogiad o dan gyfadeilad y pyllau bellach ar gael ar ôl drilio o dan slab y llawr. Roedd lefelau halogi o dan gyfadeilad y pyllau yn llawer is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol ac mae'r wybodaeth hon wedi ychwanegu at y wybodaeth gyffredinol am nodweddion y safle hyd yma.
Ychwanegodd **RC** fod angen gwaith ychwanegol i nodweddu rhai ardaloedd yn fwy manwl i gefnogi'r cais ffurfiol ar gyfer gwaredu ar y safle a bydd hyn yn destun cyswllt Rheoleiddiol arferol â'r safle.
Gofynnodd **MW** am ragor o wybodaeth am yr ardal sydd wedi'i halogi sy'n gysylltiedig â'r gollyngiad hanesyddol (1980au) o'r pwll. Cadarnhaodd **IW** fod hyn yn oddeutu 5,000 metr ciwbig, er bod lefelau'r halogiad yn gymharol isel.

# 3 Rhagfyr 2018

Cyflwynodd ES ymddiheuriad IW am absenoldeb anochel a chyflwynodd ddiweddariad a dderbyniwyd drwy e-bost fel a ganlyn:

*Mae canllawiau 'Asiantaethau yr Amgylchedd' ar ryddhau safleoedd niwclear o reoleiddio sylweddau ymbelydrol (yr 'GRR') bellach wedi cael eu cyhoeddi ac mae Magnox yn parhau i weithio ar ddatblygu cyflwr terfynol wedi'i optimeiddio ar gyfer safle Trawsfynydd yn unol â'r canllawiau newydd.*

*Ar yr un pryd, mae BEIS bellach wedi cyhoeddi ei ymateb ymgynghoriad i'r cynigion i symleiddio'r gwaith o reoleiddio safleoedd niwclear yng nghamau olaf y gwaith datgomisiynu ac mae'n cefnogi'r cynigion hyn. Bydd mabwysiadu'r cynigion yn golygu bod angen diwygio Deddf Safleoedd Niwclear 1965 a bod cais am slot seneddol wedi cael ei wneud, ac unwaith y bydd wedi'i roi ar waith, bydd yn caniatáu i weithredwr ildio'r drwydded safle niwclear ar ôl delio â'r holl beryglon sylweddol o ran diogelwch niwclear.*

*Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau uchod yn caniatáu ystyried opsiwn cyflwr terfynol ar gyfer y safle a allai olygu gadael rhywfaint o wastraff datgomisiynu ymbelydrol ar ôl. Byddai gwastraff o'r fath i raddau helaeth yn golygu gadael rhai strwythurau o dan yr wyneb sydd wedi'u halogi'n ysgafn, naill ai gyda neu heb osod gwastraff tebyg mewn unrhyw wagle o dan yr wyneb.*

*Bydd Magnox yn cyflwyno papur opsiynau sy'n cael ei ffafrio i Uwch Bwyllgor Strategaeth yr NDA ym mis Mawrth 19, gan nodi'r achos o blaid yr hyn y mae'n ei ystyried yn gyflwr terfynol gorau ar gyfer y safle. Y syniad presennol yw cyflwr terfynol sy'n cynnwys gadael rhywfaint o wastraff ymbelydrol yn y fan a'r lle, gan gynnwys gwaredu hen gyfadeilad y pyllau oeri yn gynnar.'*

# 6 Mehefin 2019

Rhoddodd IW gyflwyniad ar Gyflwr Terfynol y Safle. Amlinellodd y camau a gymerwyd hyd yma a'r camau nesaf fel a ganlyn:

- Chwefror 2016: Canllawiau newydd drafft gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar eu gofynion ar gyfer rhyddhau safleoedd o reoliadau (y 'GRR').
- 2016-17: Treialu defnydd o'r 'GRR' drafft yn Winfrith (Dorset) a Thrawsfynydd (Gogledd Cymru)
- Gorffennaf 2018: Mae'r 'GRR' ffurfiol a gyhoeddwyd gan EAau yn egluro dull gweithredu rheoleiddwyr o ran yr 'optimeiddio' sy'n berthnasol i gyflyrau terfynol a gwaredu gwastraff ymbelydrol ar y safle.
- Hydref 2018: Ymateb Llywodraeth y DU (BEIS) i'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r ddeddfwriaeth niwclear sy'n berthnasol i gamau terfynol y broses ddatgomisiynu. Gweinidog yn 'bwriadu' derbyn y newidiadau arfaethedig ac felly ystyrir eu bod yn bolisi gan y Llywodraeth. Dal yn aros am 'slot bil' i ddiwygio'r ddeddfwriaeth.
- Ebrill 2019: Amodau trwyddedau drafft newydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Rhaid i Magnox ddangos y dull gorau o waredu'r holl wastraff datgomisiynu sy'n codi hyd at y cyflwr terfynol; rhaid i Magnox ddangos ei fod yn optimeiddio unrhyw waith gwaredu gwastraff ymbelydrol ar y safle.
- Yn parhau: Trafod pryd mae angen i Magnox fodloni gofynion y drwydded uchod.

Newid arfaethedig yn y Strategaeth:

- Treial Arwain a Dysgu – Mae gwaredu ar y safle yn dechnegol bosib.
- Caniatáu cais neu ddiddymu cyn Gofal a Chynnal a Chadw ar gyfer rhai nodweddion penodol.
- Ar sail y gwaith hyd yn hyn.
- Ni chredir bod y strategaeth bresennol yn cynrychioli'r sefyllfa orau ar gyfer y Cyflwr Terfynol.
- Mae Cyflwr Terfynol gyda rhywfaint o waredu ar y safle yn cynrychioli dull gwell.
- Papur newid strategaeth i'r NDA ym mis Mawrth 19.

- Cymeradwyaeth i ddatblygu opsiwn/opsiynau eraill.

Gwaredu ymbelydredd posibl o safle datgomisiynu:

- Y strategaeth newydd yw mynd ar drywydd ‘ponds down’ a gwaredu cynnar ar y safle cyn adeiladu a chynnal a chadw.
- Cwblhau’r gwaith o ddymchwel y strwythur pyllau ar wyneb y tir.
- Gadael rhai nodweddion sydd yn y ddaear yn barod fel y maen nhw.
- Gwaith dymchwel ffisegol ar gyfadeilad y pyllau yn debygol o ddechrau yn 2023/4.
- Byddai’r gwaith o ostwng uchder yr adweithyddion yn dal i fynd rhagddo.
- Fyddai storfa’r gwastraff lefel ganolraddol ddim yn newid.
- Byddai’r model pum blwch yn newid yn ôl i fodel tri blwch.

Rhoddodd grynodeb drwy ddweud bod newid i’r Strategaeth yn rhoi cymeradwyaeth i ddatblygu’r opsiwn/opsiynau ac nad yw o reidrwydd yn cadarnhau’r hyn a fydd yn digwydd yn y pen draw. Bydd angen:

- Achos busnes manwl sydd wedi’i ategu gan ddyluniad manwl.
- Gwaith datblygu technegol pellach – faint ac ym mha ffurf.
- Ymgysylltu’n helaeth â rhanddeiliaid.
- Datblygu ceisiadau ar gyfer y drwydded a’r caniatâd cynllunio.
- Gwneud y gwaith – mae’r prif waith dymchwel yn debygol o fod yn 23-25.

Roedd y **Cynghorydd MW** am bwysleisio pa mor bwysig yw cael proses gadarn i ymgynghori â’r cyhoedd. Cadarnhaodd **IW** fod gofynion statudol ar gyfer ymgysylltu helaeth ond nad yw hyn wedi’i gytuno eto.

# 3 Rhagfyr 2020

Rhoddodd IW adroddiad diweddaru ar yr uchod wedi’i grynhoi fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd y treial “Arwain a Dysgu” GRR Drafft yn 2016/17.
- Datblygwyd strategaeth cyflwr terfynol ddrafft amgen ar gyfer y safle.
- Cafodd y dull strategol newydd ei dderbyn gan yr NDA yn 2018.
- Mae’r gwaith datblygu i gefnogi dymchwel cyfadeilad y pyllau a’r gwaith gwaredu cysylltiedig ar y safle yn mynd rhagddo.
- Rhagwelir y bydd pob caniatâd angenrheidiol yn cael ei geisio yn 2021/2022 – os bydd COVID yn caniatáu.
- Dymchwel cyfadeilad y pyllau wedi’i drefnu ar gyfer 2024.

Gwireddu Cyflwr Terfynol cyfadeilad y pyllau.

- Parodrwydd i dynnu peiriannau a dymchwel.
- Adeiladau wedi’u dymchwel a gwagleoedd wedi’u llenwi, wedi’u capio yn unol â’r dyluniad peirianneg.
- Cwblhau’r gwaith tirweddu terfynol ar ôl clirio’r safle’n derfynol.

I gloi, mae’r GRR yn pennu nodau rheoleiddio ar gyfer glanhau safleoedd niwclear:

- Gwell cynlluniau rheoli gwastraff.
- Gwaredu gwastraff yn y ffordd orau bosibl.

- Safonau diogelwch amgylcheddol ar gyfer ildio trwyddedau.

Mae hyn yn golygu bod modd rheoli gwastraff ymbelydrol o ddatgomisiynu niwclear yn gynaliadwy ac mae'n rhan o'r darlun ehangach o ran cynlluniau Llywodraeth y DU a'r Weinyddiaeth Ddatganoledig ar gyfer camau terfynol datgomisiynu niwclear.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Diolchodd **JIJ** i IW am ei gyflwyniad manwl gan nodi bod y cynnwys yn disgrifio'r camau sydd i'w cymryd i ddelio â gwastraff mewn ffordd gynaliadwy, yn gymesur â'r pryderon. Gofynnodd a fyddai IW yn gallu cyflwyno i Ardal Fenter Eryri a gofynnodd hefyd a fydd unrhyw ymgynghoriadau ar ddatblygiadau ar y safle yn y dyfodol.
Dywedodd **IW** ei fod yn hapus i gyflwyno i Fwrdd Ardal Fenter Eryri a chadarnhaodd y bydd prosesau ymgynghori yn rhan annatod o ddatblygiadau.

# 10 Mehefin 2021

Rhoddodd IW gyflwyniad diweddaru ar yr uchod wedi'i grynhoi fel a ganlyn:

- Cyhoeddwyd canllawiau 'GRR' yn 2018: gweithredwyr a rhanddeiliaid i ystyried yr opsiwn gorau ar gyfer gwaredu'r gwastraff ymbelydrol sydd wedi'i halogi'n ysgafn sy'n cael ei gynhyrchu yn ystod gweddill y rhaglen ddatgomisiynu.
- Y strategaeth ar gyfer cyfadeilad pyllau Trawsfynydd wedi'i diwygio'n briodol.
- Prosiect wedi'i sefydlu i gyflawni gwaith Cam 1: edrych ar nodweddion adeiladau; effeithiau amgylcheddol; caniatâd cynllunio a thrwyddedau angenrheidiol, a gweithgarwch ymgysylltu parhaus.

Hyd a lled y datblygiad arfaethedig.

- Dymchwel ac ôl-lenwi cyfadeilad y pyllau er mwyn gweithredu 'Cyflwr Interim yr Ardal Waredu'.
- Gwaredu nodweddion ymbelydrol wedi'u claddu yn y fan a'r lle (nid oes angen gwneud unrhyw waith ffisegol).

Mae Magnox yn bwriadu darparu gweithgareddau ymgysylltu anstatudol, gan gynnwys fideo byr wedi'i animeiddio i'w ddefnyddio mewn sesiynau briffio i reoleiddwyr/cynllunio/rhanddeiliaid; Diweddariadau ar-lein/darparu gwybodaeth; Sesiynau briffio anffurfiol gyda rhanddeiliaid; presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol lleol cyn gwneud cais a sesiynau ymgysylltu â'r gymuned wyneb yn wyneb.

Bydd Avison Young yn cynrychioli Magnox ar gyfer yr holl weithgareddau statudol, gan gynnwys cydlynu a rheoli'r ymgynghoriad cyhoeddus cyn ymgeisio. Byddant hefyd yn ysgrifennu adroddiad yr ymgynghoriad cyn ymgeisio yn nodi methodoleg yr ymgynghoriad ac yn dadansoddi'r ymatebion.

Crynodeb:

- Mae'r cais cynllunio yma'n sefyll ar ei ben ei hun.
- Mae darparu cyfadeilad y pyllau i'w gyflwr dros dro yn rhyddhau lle y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau datgomisiynu yn y dyfodol.
- Mae Cytundeb Perfformiad Cynllunio (PPA) yn cael ei geisio i hwyluso ymgysylltu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a bydd cyflwyniadau'n cael eu cyflwyno i'r corff cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.


# 18 Tachwedd 2021

Rhoddodd IW adroddiad diweddaru fel a ganlyn: -

- Cafodd fideo ymgynghori â rhanddeiliaid ei 'dreialu' gydag aelodau, a bydd y fersiwn derfynol yn rhan o'r Rhaglen Allgymorth i Randdeiliaid.
- Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ynghylch caniatâd cynllunio ac unrhyw faterion perthnasol eraill.

- Y bwriad yw bwrw ymlaen â gostwng uchder yn gyntaf a chadw unrhyw ddeunydd dymchwel nad yw'n ymbelydrol, gan weithio gyda'r rheoleiddiwr i ailddefnyddio'r holl ddeunyddiau addas.

Croesawyd Uwch Reolwr Prosiect Gogledd Cymru i'r cyfarfod hefyd ac amlinellodd yr amserlen ar gyfer cynnydd gyda'r tabl canlynol: -




Nododd fod y prosiect yn y cyfnod 'Cysyniadol' ar hyn o bryd. Nododd hefyd y gallai fod potensial ar gyfer cyfnod interim estynedig.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Holodd **PR** pam y bydd yna dwmpathau sgrinio. Dywedodd ID fod hyn yn rhan o'r cynllun gwreiddiol er mwyn lleihau'r effaith oddi ar y safle, ond gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer tirweddu terfynol a slabiau concrid.
Nododd RT y dylai'r Pennaeth Rheilffyrdd hefyd fod yn rhan o drafodaethau ynghylch diddordeb a defnydd y safle yn y dyfodol.

# 9 Mehefin 2022

Rhoddodd IW adroddiad diweddaru ar yr uchod gan dynnu sylw penodol at ffurfweddiad y cyfadeilad. Amlinellodd y rhaglen waith gyfredol fel a ganlyn:

- Tynnu peiriannau yn systematig.
- Nodweddu.
- Ffurfweddiad gwaredu.
- Cydymffurfedd â dŵr daear.
- Datblygu ceisiadau cynllunio.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Datblygu cais am amrywio trwydded.

Cyfeiriodd at bwysigrwydd Ymgysylltu'n gadarn â Rhanddeiliaid, gyda Chynllun Cyfathrebu y cytunwyd arno yn gefn iddo. Bydd y gweithgareddau ymgysylltu yn cynnwys:

- llythyr dwyieithog i gymunedau lleol i'w ddosbarthu'n gynnar.
- creu Neuadd y Dref rithiol a fydd yn llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth a derbyn sylwadau.
- sefydlu canolfannau galw heibio mewn Llyfrgelloedd; caffi Lakeside a neuaddau Pentref/Tref.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Holodd **JR** beth fyddai'n digwydd pe bai Parc Cenedlaethol Eryri yn erbyn unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer gwaredu.
Nododd **IW** y byddai hyn yn dibynnu ar beth allai'r mater fod.

## 31 Ionawr 2023

Rhoddodd IW grynodeb o’r wybodaeth ddiweddaraf fel a ganlyn:-

- Draenio ar ôl Dymchwel – Derbyniwyd cymeradwyaeth SAB ar gyfer y cynnig. Dyluniad rhagarweiniol ar waith. Wrthi’n cael ei fireinio yn unol â dyluniad capio. Dyluniad manwl y capio yn mynd rhagddo
- Asesiad Strwythurol y Pyllau – Adolygiad wedi’i gwblhau ac yn cael ei wirio.
- Dull dymchwel: asesu cyfyngiadau radiolegol; adolygu amgaeadau posibl yn ystod y gwaith; gwaith nodweddu yn mynd rhagddo.
- Amlinelliad o’r cynllun dymchwel: Y dilyniant dymchwel cychwynnol yn cael ei ddatblygu gan grwpiau arbenigol; cyfyngiadau radiolegol; lleoli sgil-gynhyrchion dymchwel mewn gwagleoedd priodol.
- Trwydded Amgylcheddol y Safle: mae angen amrywiad, ymgysylltu parhaus â Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Caniatâd cynllunio: asesiad o’r effaith amgylcheddol yn cael ei gynnal; cais cwmpasu wedi’i gyflwyno (Medi 22).
- Ymgysylltu â’r gymuned: llythyr rhanddeiliaid – Rhagfyr 22; erthygl gan y BBC – Rhagfyr 22; ymweliad â’r safle/esboniad wedi’i ddarparu.
- Cynllun ymgysylltu: ceisio dechrau ymgysylltu’n rhagweithiol yng ngwanwyn 2023; mae nifer o ofynion statudol i’w cyflawni; defnyddio dull gweithredu cymysg (cyfryngau/ar y we/wyneb yn wyneb).
- Amserlen ar gyfer dymchwel y pyllau: cais am amrywio trwydded – Medi 2023 gyda chais cynllunio ychydig fisoedd yn ddiweddarach.
- Ni fydd unrhyw waith ffisegol yn dechrau yn y dyfodol agos.

**<u>Sesiwn Holi ac Ateb</u>**
Holodd y **Cyng MW** a fyddai’r holl ddeunydd o’r pyllau yn aros ar y safle?
Nododd **IW** mai’r bwriad yw i’r holl strwythurau o dan y ddaear aros ar y safle. O ran y deunyddiau uwch ben lefel y ddaear, bydd y rhain yn cael eu hail-bwrpasu ar y safle.
Gofynnodd **RT** a fyddai contractwyr yn defnyddio’r rheilffordd.
Nododd **JT (Magnox)** nad oes manylion ar gael hyd nes y bydd pob tendr wedi dod i law.
Gofynnodd **PR** am nodyn atgoffa o’r dyddiad cwblhau ar gyfer Gostwng Uchder a Dymchwel Pyllau.
Dywedodd **JT** mai’r amserlen ar gyfer Gostwng Uchder yw diwedd 2027.
Cadarnhaodd **IW** linell amser o 2029/30 ar gyfer Dymchwel Pyllau, fodd bynnag, ailadroddodd bwysigrwydd cynnal ymgysylltiad cymunedol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu’n brydlon.
Cyfeiriodd **BW** at gau’r Caffi, gan gydnabod y gallai hyn fod oherwydd costau rhedeg uchel. Awgrymodd y byddai hwn yn lleoliad addas ar gyfer ymgysylltu â’r gymuned a thrwy hynny gyfrannu at hyfywedd y lleoliad. Cyfeiriodd hefyd at yr Eisteddfod Genedlaethol sydd ar y gweill yn Llŷn yr haf hwn a byddai hynny hefyd yn ffordd effeithiol o hyrwyddo datblygiadau, yn enwedig y gwaith da a wneir gyda STEM. Roedd AR yn cydnabod sylwadau BW ac yn cytuno y byddent yn cael eu hystyried ymhellach.

## 8 Mehefin 2023

Croesawyd IW i’r cyfarfod. Dywedodd fod yr ymweliad cynharach â’r safle o amgylch cyfadeilad y pyllau yn gyfle da i rannu datblygiadau. Disgrifiodd yr amserlen ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol fel a ganlyn: -

- Ch3/4 2023 - Amrywio Trwydded RSR
- Ch4 2023 – cyfnod penderfynu o 2 flynedd
- Ch3 2027 – Dechrau’r Dyfarniad Contractwr - Dymchwel
- Ch3 2030 – Cwblhau’r holl waith i gynnwys tirweddu terfynol.

Cyfeiriodd IW hefyd at ddigwyddiadau Ymgysylltu â’r Gymuned o ganol mis Gorffennaf 2023 ymlaen a fydd yn cynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb a rhyngweithio ar lwyfannau rhyngrwyd. Bydd yr aelodau’n cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy’r Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

**<u>Sesiwn Holi ac Ateb</u>**

Holodd **Y Cyng MW** a fyddai deunydd dros ben yn cael ei adael ar y safle.
Dywedodd **IW** y bydd yn rhaid ystyried sawl opsiwn ond, yn y pen draw, bod angen caniatâd statudol ar gyfer pob opsiwn. Ailadroddodd fod perthynas waith agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni.
Holodd y **Cyng JR** am y gwagleoedd yn y pyllau.
Nododd **IW** fod 3,500 metr ciwbig o wagleoedd a bod angen cynyddu’r gwagleoedd er mwyn gallu defnyddio’r ôl troed yn briodol.

# Atodiad III

Llythyr at Gynghorwyr Lleol (Dyddiedig 21 Rhagfyr 2022)

# Atodiad IV

## Digwyddiadau Ymgynghori / Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae tri digwyddiad ymgynghori â'r cyhoedd wedi'u cynnal mewn perthynas â'r cynigion. Roedd y rhain ar ffurf sesiynau galw heibio ac fe'u cynhaliwyd ar dri diwrnod yn olynol, Gorffennaf 10-12, 2023 yn y lleoliadau canlynol:

- Dydd Llun 10 Gorffennaf 2023 yn Nhrawsfynydd – Neuadd Gyhoeddus y Pentref, Stryd y Capel, Trawsfynydd, Gwynedd, LL41 4RW (1.5 milltir o'r safle)
- Dydd Mawrth 11 Gorffennaf 2023 ym Mlaenau Ffestiniog - Y Ganolfan Gymdeithasol, Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog, LL41 3UF (10.8 milltir o'r safle)
- Dydd Mercher 12 Awst 2023 ym Mhenrhyndeudraeth – Neuadd Goffa, Stryd Griffin, Penrhyndeudraeth, LL48 6LP (9.8 milltir o'r safle)

Roedd pob digwyddiad cyhoeddus ar agor i'r cyhoedd am bum awr, rhwng 3pm ac 8pm. Dewiswyd pob un o'r lleoliadau ar sail ei leoliad o'i gymharu â'r safle a hygyrchedd i drigolion pentrefi llai cyfagos a allai fod wedi dymuno mynychu'r digwyddiadau ymgynghori.

I gefnogi'r digwyddiadau cyhoeddus, trefnwyd pedair arddangosfa heb staff yn y llyfrgelloedd lleol ym Mhorthmadog, Dolgellau, Harlech a'r Bala, a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf 10 ac Awst 7, 2023. Y pedair llyfrgell a nodwyd oedd:

- Dydd Llun 10 Gorffennaf 2023 – Dydd Llun 17 Gorffennaf 2023 yn Llyfrgell Porthmadog, Heol y Llan, Porthmadog, LL49 9HU (13.2 milltir o'r safle)
- Dydd Llun 17 Gorffennaf 2023 – Dydd Llun 24 Gorffennaf 2023 yn Llyfrgell Dolgellau, Ffordd y Bala, Dolgellau, LL40 2YF (2.6 milltir o'r safle)
- Dydd Llun 24 Gorffennaf 2023 – Dydd Llun 31 Gorffennaf 2023 yn Hen Lyfrgell ac Orsaf Harlech, Y Stryd Fawr, Harlech, LL46 2YB (15 milltir o'r safle)
- Dydd Llun 31 Gorffennaf 2023 – Dydd Llun Awst 7 2023 yn Llyfrgell y Bala, Campws Godre'r Berwyn, Ffordd Ffrydan, Y Bala LL23 7RU (18.4 milltir o'r safle)

Dewiswyd y llyfrgelloedd hyn oherwydd eu bod ymhellach i ffwrdd o gnewyllyn radiws 10 milltir y safle a lle cynhaliwyd y tri digwyddiad cyhoeddus â staff.

Ar gyfer y prif ddigwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus, cynhyrchwyd cyfres o 18 baner safonol 2m x 1m, naw yn Gymraeg, naw yn Saesneg. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys 16 baner a gynhyrchwyd gan yr Ymgeisydd a oedd yn darparu gwybodaeth am hanes y safle, y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yma a'r camau nesaf arfaethedig o ran datgomisiynu cyfadeilad y pyllau. Cynhyrchwyd y ddwy faner ddwyieithog ychwanegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn darparu gwybodaeth amgylcheddol gyffredinol.

Roedd yr arddangosfa heb staff ar gyfer y llyfrgelloedd yn llai, yn cynnwys chwe baner safonol, tri yn Gymraeg, tri yn Saesneg. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn grynodeb o'r wybodaeth a ddangoswyd yn y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, gan roi manylion am hanes y safle a'r opsiynau arfaethedig ar gyfer datgomisiynu cyfadeilad y pyllau.

I gefnogi pob un o'r saith arddangosfa, cynhyrchwyd taflen wybodaeth A4 yn nodi gwybodaeth gefndir, sut bydd y gwarediadau ar y safle yn cael eu monitro a'u hasesu, a beth yw'r risgiau. Cynhyrchwyd y taflenni gwybodaeth yn ddwyieithog a chawsant eu dosbarthu yn y digwyddiadau cyhoeddus yn ogystal ag ym mhob digwyddiad llyfrgell heb staff.

I ategu baneri'r arddangosfa, cynhyrchwyd fideo 5 munud dwyieithog a'i ddangos ym mhob arddangosfa â staff. Cafodd y fideo wedi'i animeiddio ei chwarae ar sgrin fawr mewn dolen barhaus a rhoddodd esboniad cam wrth gam o'r cynigion ar gyfer cyfadeilad y pyllau. Cafodd arddangosfa rithiol hefyd ei dylunio a'i llwytho i fyny i wefan yr Ymgeisydd i ddarparu'r un wybodaeth ar yr un pryd â'r digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd. Aeth yn fyw mewn pryd ar gyfer y digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd cyntaf ar ddydd Llun 10 Gorffennaf ac, at ddibenion dadansoddi a chwblhau'r data adborth, daeth i ben ar 31 Awst. Felly, roedd y cyfnod ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd rhwng 10 Gorffennaf 2023 a 31 Awst 2023, cyfanswm o 53 diwrnod yn gynhwysol.

**Ymgyrch Hyrwyddo a Chyhoeddusrwydd**

Lanlwythwyd datganiad i'r wasg yn manylu ar y rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned i wefan yr Ymgeisydd ac anfonwyd llythyr gwahoddiad dwyieithog at oddeutu 40 o randdeiliaid lleol. Roedd y llythyr yn cynnwys amlinelliad byr o'r cynlluniau arfaethedig a gwahoddiad personol i un o'r digwyddiadau.

I hyrwyddo'r digwyddiadau, defnyddiwyd pedair prif sianel gyfathrebu cyhoeddusrwydd; cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau â'r cyfryngau, gwefan yr Ymgeisydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Dyluniwyd casgliad o hysbysiadau cyhoeddusrwydd digidol i hyrwyddo'r digwyddiadau; golygwyd y rhain i hyrwyddo pob digwyddiad a'u postio ar y gwahanol lwyfannau ychydig ddyddiau cyn y digwyddiad. Dechreuodd yr ymgyrch hyrwyddo a chyhoeddusrwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun 3 Gorffennaf hyd at 7 Awst pan ddaeth y digwyddiad llyfrgell diwethaf (yn y Bala) i ben.

Mae gan yr Ymgeisydd sawl llwyfan cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwyd i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau.

- X (Twitter gynt) – cafodd negeseuon trydar rheolaidd eu postio i gyd-fynd â phob digwyddiad, yn rhoi gwybod i'r cyhoedd ble a phryd roedd y digwyddiad nesaf yn cael ei gynnal.
- Linked-In – sy'n debyg i X, cafodd postiadau eu lanlwytho i gyfrif proffil Linked-In yr Ymgeisydd i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau oedd ar y gweill, unwaith eto ychydig ddyddiau cyn y digwyddiad.
- Facebook – nid oes gan yr Ymgeisydd dudalen Facebook weithredol ac oherwydd bod y llwyfan hwn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan gymunedau i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau lleol, cytunwyd y gallai'r Ymgeisydd ddefnyddio llwyfan Facebook yr NDA i hyrwyddo'r digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned. Cafodd hyn ei wneud yn yr un ffordd â'r hyn a oedd wedi'i wneud ar X a Linked-In.

Ym mis Rhagfyr 2022, dangosodd BBC Wales Today, rhaglenni newyddion S4C, BBC Wales Online a Cymru Fyw eitem newyddion yn manylu ar y cynlluniau arfaethedig i ddatgomisiynu cyfadeilad y pyllau cyn iddo gael ei wneud yn gyhoeddus yn ffurfiol drwy gais cynllunio. Cafodd yr eitem ei ffilmio a'i golygu gan ohebydd BBC Cymru, Gareth Pennant-Jones. Penderfynwyd gwahodd BBC Cymru Wales i ddilyn yr eitemau newyddion hyn gyda chyfweliad i drafod y cam nesaf yn y broses. Sicrhawyd cyfweliad gyda rhaglen amser cinio (Cymraeg) Radio Cymru, Dros Ginio, rhaglen newyddion a materion cyfoes sy'n trin a thrafod pynciau'r dydd. Mae'r rhaglen yn cael ei darlledu rhwng dydd Llun a dydd Iau rhwng 1-2pm a chafodd Angharad Rayner, cyfarwyddwr y safle, ei chyfweld gan gyflwynydd y rhaglen Cennydd Williams; roedd y cyfweliad yn gyfweliad radio 7 munud wedi'i recordio yn Gymraeg. Cafodd y cyfweliad ei ddarlledu am 1.30pm ddydd Llun 10 Gorffennaf.

**Adborth ac Ymatebion yr Ymgeisydd**

Er mwyn sicrhau'r ymateb mwyaf posibl gan y cyhoedd a chasglu barn a syniadau am y cynlluniau arfaethedig, cynhyrchwyd ffurflen adborth ddwyieithog a oedd ar gael ym mhob digwyddiad ac anogwyd y cyhoedd i'w chwblhau. Cafodd cyfanswm o 54 o ffurflenni adborth eu llenwi, ac mae'r sylwadau o'r rhain wedi'u nodi yn y tabl canlynol, ynghyd ag ymateb yr Ymgeisydd neu esboniad o sut maen nhw wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r cynigion.

***Codau lleoliad a ddarperir yn y tabl:***

***PM – Llyfrgell Porthmadog, HL – Llyfrgell Harlech, TF – Arddangosfa Gyhoeddus Trawsfynydd, BF – Arddangosfa Gyhoeddus Blaenau Ffestiniog, PD – Arddangosfa Gyhoeddus Penrhyndeudraeth, PO – Post, OL – Ar-lein***

| Materion Allweddol a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd |
|---|---|
| "Mae Trawsfynydd yn rhan o hanes yr ardal, ac mae'n bwysig parhau i gynnig cyflogaeth i bobl leol." (PM4) | - |
| "Gwaith i bobl leol yn y dyfodol. Mae angen i'r economi leol elwa o'r safle." (TF3) | - |
| "Cefais wybodaeth fanwl am y gwaith sydd i'w wneud." (TF6) | - |
| "Gwybodaeth dda am yr hyn sy'n digwydd ar y safle." (PD1) | - |
| "Gwybodaeth ragorol wedi'i harddangos, da iawn chi." (PD5) | |
| "Llawn gwybodaeth." (PD10) | - |
| "Daliwch ati, gwnewch hynny cyn gynted â phosibl – ond yn ddiogel. Gwaith i bobl leol. (PD7) | - |
| "Roedd yr arddangosfa ar-lein yn reddfol ac yn hwyl i'w defnyddio." (OL3) | - |
| "Diddorol iawn, angen mwy o gyswllt gyda'r gymuned." (BF1) | - |
| "Cyfathrebu gwael, wedi'i hysbysebu'n wael, dim cynrychiolydd o Magnox. Nid oedd hon yn ymgais ddifrifol i | - |

| Materion Allweddol a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd |
|---|---|
| ymgysylltu â'r cyhoedd – pam na chafwyd unrhyw gwestiwn uniongyrchol ynghylch pa ddiwydiant allai gymryd ei le?" (HL1 & HL2) | |
| "Does dim llawer o sylw'n cael ei roi i'r arddangosfa." (TF2) | - |
| "Roedd rhywfaint o'r testun ar yr arddangosfa ar-lein braidd yn fach i'w ddarllen yn gyfforddus. Byddai ffordd o weld y paneli ar sgrin lawn wedi bod yn ddefnyddiol." (OL6) | - |
| "Nid oedd posteri gwybodaeth yr arddangosfa yn hawdd iawn eu defnyddio i gynyddu maint i'w ddarllen ar iPhone. gan y byddai'r ymyl chwith yn diflannu. Roedd hyn yn ymddangos yn amaturaidd." (OL7) | - |
| "Dydy o ddim yn ymddangos yn ddiogel." | Mae'r Ymgeisydd yn weithredwr safle sy'n cael ei reoleiddio'n sylweddol ac mae ganddo record ddiogelwch dda iawn. Mae'r gwarediadau ar y safle arfaethedig wedi bod yn destun asesiadau diogelwch ac amgylcheddol manwl a chynhwysfawr. Ni roddir trwydded neu ganiatâd cynllunio i'r cynigion os nad yw'r awdurdodau perthnasol yn cytuno y byddai'r holl safonau gofynnol yn cael eu bodloni. |
| "Ddim yn hoffi'r gerddoriaeth (gan gyfeirio at y fideo ar-lein)". "Byddai mwy o sylwebaeth wedi bod yn ddefnyddiol" (OL1) | Wedi nodi hyn. |
| "Does dim mesuriadau i rywun gael syniad o faint y gwaith a'r cap arfaethedig, er bod y mesur o'r gwastraff sydd angen ei lenwi yn cael ei roi. Mae pob adroddiad yn dangos bod effeithiau gwastraff lefel isel hyd yn oed yn fwy na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol. Pwysleisir mantais llai o symudiadau loriau gyda'r dyluniad hwn. Dylid cofio'r ddadl hon ac ni ddylid cael llwythi yn cario cydrannau SMR i'r safle hwn chwaith. Canlyniad hyn fyddai dinistrio ffyrdd, achosi trafferthion i drigolion lleol ac ychwanegu at lygredd y safle.<br>Ni ymchwiliwyd i effaith yr hen orsaf niwclear ar iechyd preswylwyr. Dyma'r effeithiau sy'n amlygu eu hunain fwy a mwy bob blwyddyn. Mae'r cynlluniau hyn yn dangos bod addewidion gwag wedi'u gwneud y byddai'r safle'n cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol ac yn safle gwyrdd. Mae gadael problemau i genedlaethau'r dyfodol yn digwydd bob tro yn y diwydiant hwn ac mae'n gwbl groes i'r deddfau i warchod ein disgynyddion yng Nghymru." (PO1) | Mae'r Datganiad Amgylcheddol a dogfennau'r cais cynllunio yn rhoi gwybodaeth am faint y gwaith a'r cap.<br>I weld asesiad o effeithiau gweithrediadau hanesyddol, gweler y gyfres o adroddiadau Ymbelydredd mewn bwyd a'r amgylchedd, a gynhyrchir yn flynyddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Safonau Bwyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Chanolfan Gwyddor yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu:<br>Adroddiad Ymbelydredd mewn bwyd a'r amgylchedd (RIFE) - GOV.UK (www.gov.uk)<br>Gweler hefyd:<br>Ymbelydredd: gwybodaeth fanwl - GOV.UK (www.gov.uk) |
| "Da iawn ond mae angen ei hysbysebu'n well." (BF2) | - |
| "Yn y gorffennol, rwyf wedi gweithio ar y safle i gontractwr peirianneg sifil yng ngogledd Cymru. Yr wyf bellach yn gweithio i Gontractwyr Alun Griffiths, sydd â swyddfa ym Mhorthmadog. Mae'n bwysig bod contractwyr lleol yn cael eu cyflogi yn Nhrawsfynydd a Wylfa er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl i'r economi leol." (PD2) | Polisi corfforaethol yr Ymgeisydd yw defnyddio contractwyr lleol os yw'n briodol gwneud hynny. Mae'r mater hwn yn cael ei adlewyrchu ym mhrosesau dewis contractwyr y cwmni. Fodd bynnag, dylid nodi bod dymchwel cyfleusterau ymbelydrol yn weithgaredd arbenigol, ac efallai na fydd yn bosibl defnyddio contractwyr lleol yn unig. |
| "Beth sy'n digwydd i bont Traws? Byddai'n gymaint o drueni colli adnodd o'r fath. Mae pobl Traws yn ei defnyddio'n helaeth – byddai'n arwydd ardderchog o ewyllys da pe bai'r safle'n ei hatgyweirio – byddai'n denu mwy o dwristiaid i'r ardal." (PD7) | Er bod hwn yn bwnc pwysig, nid yw'n berthnasol i'r cynigion presennol ar gyfer dymchwel a gwaredu cyfadeilad y pyllau ar y safle a'r seilwaith cysylltiedig nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach. |
| "Mae'n edrych fel cynllun tymor hir." (PD13) | - |
| "A yw'r ynni sydd ei angen i ddatgomisiynu'r orsaf hon yn fwy na'r swm y mae wedi ei gynhyrchu?" (OL4) | - |
| "Yn bersonol rwy'n ffafrio gadael y safle ar gyfer ei ailddefnyddio gan ddiwydiannau niwclear (cynhyrchu pŵer, cynnyrch meddyginiaethol ac ati." (OL5) | - |

Credir bod y sylwadau a dderbyniwyd ar ffurflen adborth PO1 gan neu ar ran y grŵp gwrth-niwclear lleol, Cadno.

# Manylion cyswllt

**Ymholiadau**

Michael Southall

+44(0)7769 137 141

michael.southall@avisonyoung.com

**Ymweld â ni ar-lein**

avisonyoung.com

**Avison Young**

One Kingsway, Caerdydd CF10 3AN

Hawlfraint © 2023. Avison Young. Daeth y wybodaeth yn yr adroddiad hwn o ffynonellau yr ystyrir eu bod yn ddibynadwy ac, er y credir eu bod yn gywir, nid ydynt wedi cael eu gwirio. Nid yw Avison Young yn gwarantu cywirdeb na chyflawnder y wybodaeth a gyflwynir, ac nid yw'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am unrhyw wallau neu hepgoriadau ynddi. Gall yr holl safbwyntiau a fynegir a'r data a ddarperir yma newid heb rybudd. Ni ellir atgynhyrchu'r adroddiad hwn, yn rhannol nac yn llawn, mewn unrhyw fformat, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Avison Young.